CYFRES A3

# amserbeibl


Storïau'r Beibl - Safon 2

Enw ______________________________

## Stori 4 Iesu'n achub Pedr




DARLLENWCH
Mathew 14: 22-33



ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 14: 33

*Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod.*

Ydych chi erioed wedi bod allan ar y môr ar noson stormus mewn cwch bychan? Os do, fe allwch chi feddwl gymaint o ofn oedd ar y disgyblion pan gawson nhw eu dal mewn storm un noson ar Lyn Galilea.




**C Rhowch enw'r llyn uwchben y cwch.**


2

Doedd yr Arglwydd Iesu ddim gyda'i ddisgyblion. Roedd E ar y mynydd yn gweddïo ar Ei Dad. Ar ôl bod gymaint o amser gyda'r tyrfaoedd, roedd Ef am fod ar Ei ben Ei hun yn awr.

**C Pam aeth Iesu i fyny i'r mynydd?**
**Llenwch y llythrennau coll.**

Er mwyn **g** _ _ _ _ _ ar Dduw, Ei **D** _ _.

4



Yn y cyfamser, i lawr ar y llyn stormus, roedd pethau'n mynd yn waeth ar y disgyblion. Ganol nos fe welson nhw beth oedden nhw'n feddwl oedd yn ysbryd! Roedd mwy o ofn arnyn nhw nawr.

Ond nid ysbryd oedd e! Yr Arglwydd Iesu oedd wedi dod i'w helpu. Roedd E'n cerdded ar y dŵr.

Doedden nhw ddim yn gwybod mai Iesu oedd yno nes iddo Fe siarad â nhw.


**C Ar beth y cerddodd Iesu?**
**Tanlinellwch yr ateb cywir.**

2


**dŵr tywod glaswellt**

**C** **Rhowch yr atebion i'r cwestiynau canlynol yn y Grid Geiriau.**

1. **Beth oedd Iesu'n ei wneud ar y dwr?**
2. **Sut oedd y disgyblion yn teimlo pan welson nhw'r 'ysbryd'?**
3. **O ble y daeth Iesu?**
4. **Beth oedd y disgyblion yn feddwl oedd Iesu?**




**8**



Dywedodd Iesu wrthyn nhw, "Codwch eich calon, myfi yw: peidiwch ag ofni." Yna fe ofynnodd Pedr i Iesu a fedrai ef fynd ato, a chyn pen dim, roedd Pedr yn cerdded ar y dŵr.
Pan oedd e'n cerdded at Iesu, fe welodd nerth y gwynt a'r tonnau. Fe ddaeth ofn drosto ac fe ddechreuodd suddo.

**C** **Lliwiwch y geiriau a waeddodd Pedr ar Iesu.**

**4**

"Arglwydd, achub fi!"

Fe estynnodd Iesu Ei law ac achub Pedr. Pan oedden nhw yn ôl yn y cwch fe dawelodd y gwynt. Yna roedden nhw'n gwybod mor fawr oedd yr Arglwydd Iesu. "Yn wir, Mab Duw wyt ti," medden nhw. Rhaid i ninnau hefyd wybod bod yr Arglwydd Iesu'n Fab Duw ac wedi dod i'n hachub ni. Fe gafodd Pedr ei achub rhag boddi. Fe gawn ninnau ein hachub rhag pechod os ydyn ni'n ymddiried yn yr Arglwydd Iesu.

**cyfanswm**

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn


Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120